Cynllun Gweithredu Safonau'r Gymraeg Heddlu Gogledd Cymru

SAFONAU CYFLENWI GWASANAETHAU		
Sut yr ydym ni'n bwriadu cydymffurfio	**Hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg**	**Goruchwylio**
Sefydlu dewis iaith Bydd Heddlu Gogledd Cymru yn gofyn beth ydy iaith ddewisol y defnyddiwr gwasanaeth pan fydd yn ymdrin â hwy am y tro cyntaf.	Bydd yr adran sydd yn cysylltu â'r defnyddiwr gwasanaeth yn cofnodi'r dewis iaith a bydd yr wybodaeth yn cael ei rannu gydag adrannau mewnol eraill yn ôl y galw.	Bydd pob Pennaeth Adran yn gyfrifol am oruchwylio safonau'r Gymraeg o dan eu cyfarwyddiaeth hwy eu hunain gan gynnwys cadw cofnod a monitro.
Gohebiaeth Pan fydd yr Heddlu'n derbyn gohebiaeth yn Gymraeg, bydd yn ymateb yn Gymraeg, os oes angen ymateb. Pan fydd yr Heddlu'n anfon gohebiaeth heb wybod beth ydy iaith ddewisol y sawl sy'n ei dderbyn, mae'n rhaid iddo anfon yr ohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. (Safonau 1,4,5 a 6) Bydd e-byst a llythyrau a anfonir gan yr Heddlu ar bapur â phennawd yn cynnwys y datganiad canlynol yn y troedyn: (Safon 7) *Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg - byddwn yn ymateb yn gyfartal i'r ddwy ac yn ateb yn eich dewis iaith heb oedi.* *We welcome correspondence in Welsh and English - we will respond equally to both and will reply in your language of choice without delay.*	Mae'r Heddlu wedi cynhyrchu cyfarwyddyd i staff i wneud yn siŵr bod pawb yn ymwybodol o'r gweithdrefnau mewnol ar gyfer anfon gohebiaeth i'r cyhoedd. Mae'r cyfarwyddyd wedi cael ei gyhoeddi ar fewnrwyd yr Heddlu. Mae'r logos "Siarad Cymraeg" a "Dysgu Cymraeg", ynghyd â'r datganiad ar gyfer cynnig dewis iaith wedi cael ei gynnwys yn llofnod e-bost safonol yr Heddlu sydd ar gael ar gyfer staff.	Mae'r holl staff yn ymwybodol o'r angen i barchu dewis iaith neu, os oes angen, anfon gohebiaeth yn ddwyieithog. Mae'r Heddlu'n disgwyl i bob aelod o'r staff fod yn gyfrifol ac atebol am ddilyn y gweithdrefnau mewnol cywir i wneud yn siŵr ei fod yn cydymffurfio â'r ddeddf.

SAFONAU CYFLENWI GWASANAETH		
Sut yr ydym ni'n bwriadu cydymffurfio	**Hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg**	**Goruchwylio**
Galwadau Ffôn Nid yw Safonau'r Gymraeg yn rhoi dyletswydd gyfreithiol ar yr Heddlu i ateb galwadau 999 yn y Gymraeg. Fodd bynnag, mae'r Heddlu eisoes wedi pennu swyddi Ystafell Reoli fel swyddi sydd angen sgiliau Cymraeg llafar fel isafswm er mwyn ei alluogi i ddarparu gwasanaeth 999 dwyieithog a bydd y trefniant hwn yn parhau. Bydd y staff yn rhoi cyfarchiad dwyieithog wrth ateb y ffôn. Mae staff sydd yn siarad Cymraeg wedi eu hamlygu yng Nghyfeirlyfr Staff yr Heddlu, fel bod modd dod o hyd i siaradwyr Cymraeg yn hawdd pan fydd angen. (Safonau 10 a 17). Pan fydd yr Heddlu'n ffonio defnyddiwr gwasanaeth am y tro cyntaf, bydd yn gofyn iddynt nodi a ydynt yn dymuno derbyn galwadau gan yr Heddlu yn y Gymraeg neu'r Saesneg o hynny ymlaen. Bydd y dewis iaith hwnnw'n cael ei nodi a'i barchu. (Safon 21)	Mae'r cyfarwyddyd ar Safonau'r Gymraeg ar gyfer staff wedi ei gyhoeddi ar fewnrwyd yr Heddlu ac mae'n cynnwys cyfarwyddiadau clir ar y gweithdrefnau y dylid eu dilyn os ydy'r galwr yn dymuno ymdrin â'r Heddlu yn Gymraeg, ond bod y sawl sy'n derbyn yr alwad yn ddi-Gymraeg.	Mae'r holl staff wedi cael eu hamlygu bod angen parchu dewis iaith wrth ddelio gyda galwadau ffôn ac wrth gysylltu â'r cyhoedd dros y ffôn. Mae'r Heddlu yn disgwyl i bob aelod o'r staff fod yn gyfrifol ac atebol am ddilyn y gweithdrefnau mewnol cywir i wneud yn siŵr ei fod yn cydymffurfio â'r ddeddf.

Cyfarfodydd Pan fydd yr Heddlu'n trefnu cyfarfod gydag aelod neu aelodau o'r cyhoedd, mae'n rhaid gofyn i'r gwaddedigion a ydynt yn dymuno cyfrannu i'r cyfarfod yn Gymraeg. Os ydy'r unigolion yn nodi eu bod yn dymuno siarad Cymraeg, mae'n rhaid i'r Heddlu barchu a hwyluso'r dewis hwnnw.	Mae'r cyfarwyddyd ar Safonau'r Gymraeg ar gyfer staff wedi ei gyhoeddi ar fewnrwyd yr Heddlu ac mae'n cynnwys cyfarwyddiadau clir ar y gweithdrefnau y dylid eu dilyn os ydy'r cyhoedd yn dymuno siarad Cymraeg wrth gyfarfod â chynrychiolwyr o'r Heddlu. Mae'r dudalen Safonau'r Gymraeg ar y fewnrwyd yn cynnwys cyfarwyddyd ar gyfer trefnu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar gyfer cyfarfodydd, os oes angen ac os ydy'r safonau'n caniatáu hynny.	Bydd yr aelodau staff hynny sydd yn gyfrifol am drefnu cyfarfodydd gyda'r cyhoedd yn gyfrifol am ac yn atebol am wneud yn siŵr bod dewis iaith wedi cael ei gynnig, ei barchu a'i hwyluso.
Dogfennau a Ffurflenni Bydd dogfennau sy'n cael eu cynhyrchu gan yr Heddlu ar gael yn ddwyieithog. Bydd yr Heddlu'n gwneud ei orau i osgoi cynhyrchu dogfennau a ffurflenni Cymraeg a Saesneg ar wahân, fodd bynnag os nad oes modd osgoi hyn, bydd y ddau fersiwn yn nodi'n glir bod y fersiwn hwnnw ar gael yn yr iaith arall. Bydd y ddau fersiwn yn cael eu trin yn gydradd ac ni fyddwn yn trin un fersiwn yn llai ffafriol na'r llall. (Safonau 38, 46 – 48B)	I gydnabod bod rhai cartrefi yn cynnwys trigolion sydd yn siarad Cymraeg, dysgu Cymraeg neu sydd methu â siarad Cymraeg o gwbl, mae'r Heddlu'n cynhyrchu dogfennau dwyieithog, yn hytrach na chreu dogfennau Cymraeg a Saesneg ar wahân.	Mae pob aelod o'r staff yn ymwybodol bod angen cynhyrchu gwybodaeth i'r cyhoedd yn Gymraeg a Saesneg. Mae cyfarwyddyd ar geisiadau am waith cyfieithu ar gael ar y dudalen Safonau'r Gymraeg ar y fewnrwyd. Yr Adran Dylunio ac Argraffu yn Adran Cyfathrebiadau Corfforaethol yr Heddlu sydd yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod yr holl ddogfennau sy'n cael eu cynhyrchu'n fewnol wedi cael eu dylunio a'u fformatio yn y ddwy iaith ar yr un pryd.

Arwyddion a hysbysiadau Bydd yr holl arwyddion a hysbysiadau cyhoeddus sy'n cael eu harddangos ar safleoedd yr Heddlu, gan gynnwys arwyddion a hysbysiadau dros dro, yn ddwyieithog, a bydd y testun Cymraeg wedi ei roi mewn safle fel mai hwnnw sy'n debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf. (Safonau 58,59 a 139-141)	Bydd yr Heddlu'n gwneud yn siŵr bod y gofyniad i "roi'r Gymraeg yn gyntaf" ar arwyddion dwyieithog yn cael ei gynnwys mewn tendrau a chontractau perthnasol ayb a bod y gofyniad yn cael ei weithredu a'i fonitro.	
Gwefannau a gwasanaethau ar-lein Mae gan yr Heddlu wefan gorfforaethol gwbl ddwyieithog ac mae'r holl dudalennau'n cael eu creu yn Gymraeg a Saesneg, maent yn gwbl weithredol ac mae modd newid rhwng y ddwy iaith yn rhwydd. Yn unol â'r canllawiau ym mharagraff 29, 'Dehongli'r Safonau' nid yw'n ofynnol i gorff gydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o'r safonau mewn cysylltiad â delio ag argyfwng. Mae gwybodaeth sy'n berthnasol i ddigwyddiadau brys yn aml iawn yn ddeinamig ac o'r herwydd ni fydd bob amser ar gael yn ddwyieithog. Rydym yn ymdrechu i ddarparu gwybodaeth ddwyieithog ynglŷn â digwyddiadau brys cyn gynted â phosib. Bydd unrhyw wasanaethau ar-lein yn ddwyieithog. (Safonau 49, 52 a 53)		Adran Cyfathrebiadau Corfforaethol yr Heddlu sydd yn gyfrifol am y broses o ddiweddaru'r brif wefan.
Derbynfeydd	Mae gwasanaeth derbynfa /cownter	Mae Penaethiaid Adrannau yn gyfrifol

Mae Pencadlys yr Heddlu wedi ei leoli ym Mae Colwyn ac mae Pencadlys yr Adran Gwasanaethau Plismona yn Llanelwy, ac yn y llefydd hyn mae eu prif dderbynfeydd. Ceir hefyd Gorsafoedd Heddlu lle mae gwasanaeth cownter i'r cyhoedd yn cael ei hysbysebu a'i ddarparu. Mae swyddi derbynnydd/ staff cownter cyhoeddus yn swyddi sydd angen sgiliau Cymraeg llafar lefel 3 neu'n uwch er mwyn cynnig gwasanaeth derbynfa neu gownter dwyieithog. (Safonau 61, 64 a 65)	dwyieithog ar gael mewn derbynfeydd cyhoeddus sy'n cael eu hysbysebu. Bydd staff sydd yn darparu gwasanaeth derbynfa yn ystod amser egwyl, salwch ayyb yn cael hyfforddiant ar sut i ddelio gydag ymwelwyr a galwyr Cymraeg er mwyn eu galluogi i ddarparu gwasanaeth derbynfa dwyieithog hyd yn oed os nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg.	am wneud yn siŵr bod gwasanaeth dwyieithog ar gael mewn safleoedd sydd gan dderbynfeydd cyhoeddus.
Dyfarnu contractau Bydd gwahoddiadau i dendro'n cael eu cyhoeddi'n ddwyieithog (a) os yw pwnc y gwahoddiad i dendro am gontract yn awgrymu y dylid ei gyhoeddi yn Gymraeg, neu (b) os yw'r gynulleidfa a ragwelir, a'u disgwyliadau, yn awgrymu y dylid cyhoeddi'r gwahoddiad yn Gymraeg. Bydd modd anfon tendrau yn y Gymraeg, ac na fydd unrhyw dendrau a anfonir yn y Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol na thendrau sy'n cael eu cyflwyno yn y Saesneg. Os gwahoddir y sawl sy'n tendro i gyfweliad fel rhan o'r broses o asesu'r tendr, byddwn yn gofyn iddynt a ydynt yn dymuno siarad Cymraeg yn ystod y cyfweliad a bydd		Pennaeth yr Adran Gaffael sydd yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg sy'n berthnasol i'r broses dendro.

gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddefnyddio, oni bai bod modd cynnal y cyfweliad heb gymorth cyfieithu ar y pryd. (Safonau 73, 74, 74A, 76 a 77)		
Cyrsiau addysgol a gynigir i'r cyhoedd Mae'r Heddlu'n darparu amryw o gyrsiau addysgol i'r cyhoedd, fel cyrsiau ymwybyddiaeth gyrwyr, sydd ar gael yn y Gymraeg neu'r Saesneg.		Pennaeth yr Adran Gweinyddu Cyfiawnder sydd yn gyfrifol am sicrhau cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg sydd yn berthnasol i ddarparu cyrsiau addysgol i'r cyhoedd.
SAFONAU LLUNIO POLISI		
Mae'r holl bolisïau, prosiectau, gweithdrefnau a mentrau newydd y mae'r Heddlu'n eu rhoi ar waith yn amodol ar Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb. Fel rhan o'r asesiad hwn, mae'n rhaid i staff sydd yn llunio polisïau newydd ystyried yr effeithiau positif a/neu negatif y gallai'r polisi hwnnw ei gael ar y Gymraeg ac ar siaradwyr Cymraeg a dysgwyr. (Safonau 85-90 a 92-94)	Yn ogystal ag adnabod sut y gall polisi gael effaith negyddol ar y Gymraeg neu siaradwyr Cymraeg, mae'n rhaid i staff ystyried sut y bydd y polisi'n arwain at ganlyniadau positif, neu sut y gallwn addasu'r polisi i sicrhau canlyniadau positif.	Bydd Pennaeth yr Adran Gwasanaethau Iaith Gymraeg neu'r Uned Amrywiaeth ar gael i gynnig cyngor yn ystod y broses y broses o gwblhau Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb mewn perthynas â'r ystyriaethau addas ar gyfer y Gymraeg wrth lunio polisïau. Mae'r Swyddog Polisi a'r Bwrdd Polisi'n gyfrifol am archwilio a chymeradwyo'r Asesiadau Effaith ar Gydraddoldeb.
SAFONAU GWEITHREDOL		
Defnyddio'r Gymraeg yn fewnol Mae'r Heddlu wedi paratoi strategaeth iaith 5 mlynedd sy'n cynnwys hyrwyddo, annog a chefnogi mwy o ddefnydd o'r Gymraeg yn y gwaith a gweithleoedd dwyieithog. Yn unol â safon 95, mae'r Heddlu'n datblygu	Mae polisi'r Heddlu ar Ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol yn amlygu'r cyfleoedd sydd ar gael i staff ddefnyddio'u sgiliau Cymraeg gyda chydweithwyr a defnyddwyr gwasanaeth, e.e. gwisgo bathodyn "Siarad Cymraeg"/ "Dysgu Cymraeg",	Byddwn yn casglu tystiolaeth ar y modd y mae timau a rheolwyr yn hybu a gweithredu ethos dwyieithog yn eu gweithleoedd a'i gyflwyno i Gomisiynydd y Gymraeg fel rhan o'r broses adrodd statudol.

polisi ar ddefnyddio'r Gymraeg yn fewnol er mwyn hybu a hwyluso'r iaith yn fewnol. Bydd y polisi'n cael ei gyhoeddi ar y dudalen Safonau'r Gymraeg ar y fewnrwyd. (Safon 95)	anfon ceisiadau am swyddi mewnol yn Gymraeg, defnyddio'r Gymraeg yn achlysurol yn ystod cyfarfodydd ayyb.	
Swyddi newydd Pan fydd swydd newydd yn cael ei chynnig i unigolyn, byddwn yn gofyn i ddeiliad y swydd a ydynt yn dymuno cael cytundeb cyflogaeth Cymraeg neu Saesneg. Os ydynt yn dewis Cymraeg, byddwn yn darparu cytundeb Cymraeg. Mae'r Heddlu hefyd yn cynnig darparu'r fersiwn Gymraeg a'r fersiwn Saesneg os mai dyna ydi dymuniad yr unigolyn. (Safon 96)	Mae prosesau mewnol yr adran Adnoddau Dynol yn eu lle i wneud yn siŵr bod gweithwyr newydd yn gallu nodi eu dewis iaith ar ddechrau'r broses recriwtio a bydd y dewis hwnnw yn cael ei hwyluso.	Y Pennaeth Datblygu Pobl a'r Sefydliad sydd yn gyfrifol am wneud yn siŵr bod y Safonau perthnasol yn cael eu hymgorffori ym musnes craidd yr Heddlu.
Defnyddio'r Gymraeg yng ngweinyddiaeth fewnol y corff Mae'r Heddlu'n gweithio tuag at ddatblygu prosesau, gweithdrefnau a dogfennaeth Adnoddau Dynol i wneud y siŵr bod modd i staff dderbyn fersiynau Cymraeg o'r canlynol: • Gohebiaeth bapur yn gysylltiedig â'u cyflogaeth • Dogfennau sydd yn amlinellu eu hanghenion neu ofynion dysgu • Dogfennau sydd yn amlinellu eu hamcanion perfformiad • Dogfennau sydd yn amlinellu eu cynllun gyrfa • Ffurflenni sydd yn cofnodi ac awdurdodi	Mae staff wedi derbyn cyfarwyddyd ar y Safonau sydd wedi ei gyhoeddi ar y dudalen Safonau'r Gymraeg ar y fewnrwyd.	Byddwn yn casglu gwybodaeth ynglŷn â nifer y staff sydd yn dewis derbyn y dogfennau y cyfeirir atynt yn safonau 97 – 101 fel rhan o'r broses adrodd statudol.

gwyliau blynyddol, absenoldebau o'r gwaith ac oriau gwaith hyblyg. (Safonau 97 – 101)		
Polisïau Adnoddau Dynol Bydd y polisïau a restrir yn Safonau 102-108 yn cael eu cyhoeddi ar y fewnrwyd yn y Gymraeg a'r Saesneg.		
Cwynion a disgyblaeth Mae gan yr Heddlu drefniadau ar waith i wneud yn siŵr bod modd i staff gyfrannu tuag at brosesau cwynion a disgyblu un ai yn y Gymraeg neu'r Saesneg yn unol â'u dewis personol. Mae'r rhain yn cynnwys cyhuddiadau, ymateb i gyhuddiadau, rhoi datganiadau yn ystod cyfweliadau ayb. (Safonau 109-116)		Byddwn yn casglu gwybodaeth ynglŷn â nifer y staff sydd yn dewis defnyddio'r Gymraeg wrth gymryd rhan mewn cwynion neu achosion disgyblu fel rhan o'r broses adrodd statudol.
Meddalwedd Mae'r meddalwedd gwirio sillafu a gramadeg, Cysgliad, ar gael i bob aelod o'r staff. (Safon 117)		
Y Fewnrwyd Bydd yr Heddlu'n gweithio tuag at sicrhau cydymffurfiaeth â'r gofyniad i gael tudalen flaen ddwyieithog ar y Fewnrwyd erbyn 30.09.18. (Safonau 118-123)		Bydd Grŵp Iaith Gymraeg yr Heddlu'n derbyn diweddariadau rheolaidd ar gynnydd y gwaith, gan gynnwys cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg.
Asesu sgiliau iaith Gymraeg Mae gan yr Heddlu Bolisi Sgiliau Iaith Gymraeg.	Bydd y data a gesglir yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu proffil sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu a bydd y	Bydd proffil sgiliau iaith Gymraeg y gweithlu yn cael ei fonitro a byddwn yn adrodd arno fel rhan o'r broses adrodd

Y mae gofyn ar i staff hunanasesu eu sgiliau iaith Gymraeg mewn perthynas â siarad ac ysgrifennu a nodi eu lefel rhwng 0-5 ar gyfer y categorïau hyn. Mae aelodau staff hefyd yn cael eu hannog i gwblhau asesiad ffurfiol. (Safon 124) Y mae gofyn ar i bob aelod newydd o'r staff gael asesu eu sgiliau Cymraeg yn ffurfiol.	data'n sail i'r strategaethau a pholisïau Adnoddau Dynol a fydd yn cael eu llunio yn y dyfodol.	statudol.
Hyfforddiant Iaith Gymraeg Mae gwaith yn cael ei wneud i baratoi ar gyfer Safon 125 (dyddiad gosod 30.9.17) Mae cyrsiau Cymraeg yn y gweithle mewnol yn cynnwys hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y gwaith. Mewn perthynas â Safonau 127 a 128 bydd staff yn cael cyfle i fynychu cyrsiau hyfforddiant iaith Gymraeg mewnol yn ystod oriau gwaith. Mae'r Heddlu'n darparu cyrsiau Cymraeg sydd wedi cael eu dylunio'n arbennig ar ei gyfer. Mae cyrsiau yn cael eu darparu ar Lefel 1 hyd at gyrsiau lefel 5 (Gloywi Iaith). Mae aelodau staff sydd yn cwblhau cwrs yn llwyddiannus yn cael eu hannog i symud ymlaen i'r lefel nesaf. Mae rheolwyr nad ydynt yn gallu siarad Cymraeg sy'n gorfod cyrraedd lefel 3 sgiliau llafar. Maent yn cael cyfle i fynychu cyrsiau		Byddwn yn monitro ac adrodd ar nifer y staff sydd yn mynychu cyrsiau Cymraeg, y lefel y maent yn ei astudio a'r cymwysterau y maent yn eu hennill fel rhan o'r broses adrodd statudol.

hyfforddiant iaith i gynyddu eu gallu ar lafar a'u hymwybyddiaeth o ddefnyddio'r Gymraeg fel rhan o'u rôl a hwyluso'r Gymraeg yn y gweithle.		
Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Iaith Gymraeg Mae'r Heddlu'n darparu sesiynau hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg gorfodol i bob Cwnstabl a Swyddog Cefnogi Cymuned newydd. Mae'r hyfforddiant yn cael ei ddarparu gan Bennaeth yr Adran Gwasanaethau iaith Gymraeg. Mae gwybodaeth ar gael hefyd ar safle'r iaith Gymraeg ar y Fewnrwyd (Safonau 129 a 130)		Byddwn yn monitro ac adrodd ar nifer y staff sydd yn mynychu neu gwblhau cyrsiau hyfforddiant ymwybyddiaeth iaith Gymraeg fel rhan o'r broses adrodd statudol.
Asesu gofynion iaith Gymraeg pob swydd wag Mae pob swydd yn yr Heddlu'n gofyn am ryw lefel o allu yn y Gymraeg yn unol â pholisi Sgiliau Iaith Gymraeg yr Heddlu. Wrth greu swyddi newydd, neu adolygu swydd bresennol, bydd y rheolwr llinell ar gyfer y swydd a'r swyddog Adnoddau Dynol yn asesu'r sgiliau Iaith Gymraeg sydd yn angenrheidiol ar gyfer y swydd trwy ddefnyddio matrics iaith Gymraeg yr Heddlu. Bydd yr asesiad yn seiliedig ar y swydd ddisgrifiad h.y. ydy'r swydd yn golygu cyswllt â'r cyhoedd, os felly pa mor aml maent yn darparu gwasanaeth ayb. Mae'r Heddlu'n defnyddio lefelau sgiliau		Byddwn yn monitro ac adrodd ar nifer a natur y rolau Cymraeg hanfodol sydd yn yr Heddlu fel rhan o'r broses adrodd statudol.

sy'n seiliedig ar fframwaith ALTE a chyfres o ddatganiadau "Gallu Gwneud" i bennu'r lefel o Gymraeg sy'n angenrheidiol ar gyfer y rôl. (Safonau 134-135B)		
Ffurflenni cais Bydd ffurflenni cais yr Heddlu'n rhoi cyfle i ymgeiswyr nodi eu dewis iaith ar gyfer cyfweliad (Safon 137)		Byddwn yn monitro ac adrodd ar nifer yr ymgeiswyr sydd yn dewis cwblhau ffurflenni cais yn Gymraeg a/neu gael cyfweliad Cymraeg fel rhan o'r broses adrodd statudol.
SAFONAU CADW COFNOD A SAFONAU SY'N YMDRIN Â MATERION ATODOL		
Bydd yr Heddlu'n cofnodi a monitro'r wybodaeth angenrheidiol a nodir yn Safonau 143-171. Bydd yr wybodaeth ar gael i Gomisiynydd y Gymraeg ar gais ac yn ddi-oed.		Bydd yr Heddlu'n cynhyrchu a chyhoeddi adroddiad monitro blynyddol a fydd yn cael ei gyhoeddi ar ei brif wefan.

Sylwer: Nid yw'n ofynnol i'r Heddlu gydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o'r safonau mewn argyfwng:

(1) Os bodlonir yr amodau yn isbaragraffau (a) i (c) neu os bodlonir yr amod ym mharagraff (2), nid yw'n ofynnol i gorff gydymffurfio ag unrhyw un neu ragor o'r safonau mewn cysylltiad â gweithgaredd neu wasanaeth y cyfeirir ato yn isbaragraff (b)—

(a) Yr amod cyntaf yw bod argyfwng wedi digwydd, yn digwydd neu ar fin digwydd.

(b) Yr ail amod yw bod y gweithgaredd sy'n cael ei gyflawni neu'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu gan y corff yn angenrheidiol at ddiben atal, rheoli neu leddfu agwedd ar argyfwng neu effaith argyfwng.

(c) Y trydydd amod yw bod yr angen am y gweithgaredd neu'r gwasanaeth y cyfeirir ato yn is-baragraff (b) yn daer.

(2) Yr amod yw bod y corff yn ymgymryd ag ymarfer argyfwng.

(3) Os bodlonir yr amod ym mharagraff (2), yna mae'r cyfeiriad at "argyfwng" yn is-baragraff (1)(b) i gael ei ddarllen fel "y ffug sefyllfa argyfwng".

(paragraff 29, RHAN 3 DEHONGLI'R SAFONAU. 2016 Rhif 406 (Cy. 126) Y GYMRAEG. Rheoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 5) 2016)